**PAPUR CEFNDIR AR GYFER PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU AR DDYFODOL Y DIWYDIANT DUR YNG NGHYMRU CYN SESIWN PRIF WEINIDOG CYMRU AR 19 HYDREF**

**MEDI 2016**

---

1. Paratowyd y papur hwn er mwyn hwyluso trafodaeth ar ddyfodol y diwydiant dur yng Nghymru.

2. Rwyf yn bendant o'r farn bod dyfodol i'r diwydiant ac rydym yn gwbl ymrwymedig i gefnogi'r gwaith o wneud dur yng Nghymru. Mae dur yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac roedd fy nghyfarfod gyda Phrif Weinidog y DU yn gynharach yn yr haf yn tystio i hynny – roedd y ddau ohonom yn cytuno bod dur yn un o asedau strategol y DU, a bod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydgysylltu eu gwaith yn hyn o beth.

**Tasglu Dur Tata**

3. Cafodd Tasglu Dur Tata ei sefydlu ar lefel uchel yn syth ar ôl cyhoeddiad Tata Steel ym mis Ionawr. Mae’r Tasglu yn nodi ac yn goruchwylio'r camau ymarferol y gellir eu cymryd mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwnnw. Mae hynny'n cynnwys goruchwylio'r gwaith a wnaed i sefydlu Ardal Fenter Port Talbot yn fuan.

4. Erbyn hyn, mae'r Tasglu'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Cynhaliwyd y chweched cyfarfod ar 4 Awst. Mae niferoedd da wedi dod i bob un o'r cyfarfodydd, gan gynnwys Gweinidogion Llywodraeth y DU. Mae'r Tasglu'n goruchwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud gan bedair ffrwd waith.

**Y Ffrwd Waith Hyfforddiant a Sgiliau**

5. Mae'r ffrwd waith hon wedi bod yn edrych ar y cymorth y bydd ei angen ar y gweithwyr hynny a allai gael eu diswyddo ar ôl cyhoeddiad Tata. Mae'r broses dileu swyddi sydd wedi bod yn mynd rhagddi yn Tata ers mis Ionawr yn tynnu at ei therfyn ac mae'r Undebau a Tata wedi rhoi canmoliaeth gref i’r cymorth hyblyg a sensitif a ddarparwyd hyd yma gan yr holl asiantaethau.

6. Mae'r cymorth a roddir i weithwyr Tata, gan gynnwys sesiynau cynghori, wedi'i gynnig hefyd i weithwyr yn y gadwyn gyflenwi. Darparwyd y cymorth hwnnw gan amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, UK Steel Enterprise, cyrff gwirfoddol lleol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Roedd rhai o staff y Ganolfan Byd Gwaith ar gael ar y safle tan ddiwedd mis Gorffennaf. Mae Gyrfa Cymru wedi cynnal

cyflwyniadau mewn partneriaeth ag eraill ac wedi gweithio'n unigol gyda nifer o bobl sy'n cael eu cyflogi gan Tata a'i is-gontractwyr.

**Y Ffrwd Waith Cymorth Busnes a Chadwyni Cyflenwi**

7. Mae'r ffrwd waith hon yn edrych ar gadwyni cyflenwi'r cwmni a bu'n cefnogi'r cynnig i sefydlu Ardal Fenter yn yr ardal. Cynigiwyd cymorth penodol i 30 o gwmnïau drwy Busnes Cymru ac mae 24 o gwmnïau wedi manteisio ar y cymorth hwnnw, neu wrthi'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae cwmnïau eraill wedi gofyn i'r cymorth hwnnw gael ei ohirio am y tro oherwydd eu hamgylchiadau penodol a'r heriau sy'n wynebu eu busnesau. Bydd y ffrwd waith yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac mae cymorth yn dal i fod ar gael oddi wrth Busnes Cymru i fusnesau sy'n gofyn amdano.

8. Yng nghyfarfod diwethaf y Tasglu, cytunwyd y byddai'r ffrwd waith Hyfforddiant a Sgiliau a'r ffrwd waith Cymorth Busnes a Chadwyni Cyflenwi yn cael eu huno, o ystyried bod gwaith y ddau grŵp yn gorgyffwrdd ac o gofio bod cryn gynnydd wedi'i wneud hyd yma.

**Y Ffrwd Waith Iechyd**

9. Mae'r ffrwd waith hon yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth am y cymorth personol sydd ar gael ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. Mae'r ffrwd waith, sy'n cael ei harwain gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn bwrw ymlaen â rhaglen waith i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a lles staff Tata a gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi.

10. Mae'r gwaith yw canolbwyntio ar weithredu yn y gymuned i gefnogi a diwallu anghenion aelodau o'r teulu ehangach, gan gynnwys plant. Paratowyd taflen wybodaeth i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael ac mae'r ffrwd waith yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cyrraedd yr holl bobl y gallai fod arnynt ei hangen. Hyd yma, dosbarthwyd bron 9,000 o daflenni.

11. Mae ystyried yr effeithiau ehangach ar iechyd a lles wedi bod yn elfen bwysig o waith Tasglu Tata. Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwaith hwn yn wersi pwysig i Dasgluoedd eraill a gaiff eu sefydlu mewn ymateb i ddiswyddiadau o'r fath.

**Y Ffrwd Waith Caffael**

12. Mae'r ffrwd waith hon wedi bod yn edrych ar y cyfleoedd i gefnogi'r diwydiant dur drwy gaffael. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar am anghenion sector cyhoeddus Cymru o ran dur yn y dyfodol, ac am gapasiti a gallu'r sector dur. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol a'r cynnydd a wnaed hyd yma:

   - Dadansoddi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i ragweld anghenion o ran dur yn y dyfodol;

- Cael gwybodaeth lefel uchel am gapasiti'r sector dur ac am ei allu i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Nodi cyfleoedd i helpu i sicrhau bod y sector dur yn cael y cyfle gorau i ennill
  is-gontractau i gyflenwi dur ar gyfer prosiectau cyhoeddus;
- Sicrhau bod ystyried anghenion o ran dur yn rhan annatod a phrif ffrwd o broses Grantiau Llywodraeth Cymru ac o'r prosesau sy'n gysylltiedig ag achosion busnes ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif;
- Llunio cytundebau fframwaith strategol ar gyfer y sector cyhoeddus sy'n rhoi cyfle i gyflenwyr dur feithrin cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi;
- Diwygio'r Canllawiau ar Fudd i'r Gymuned er mwyn cyfeirio pobl at y safonau sy'n gysylltiedig â dur, megis y Siarter ar gyfer Dur Cynaliadwy o Brydain.

## Rhagolygon hirdymor ar gyfer y diwydiant dur yng Nghymru yn y dyfodol

13. Rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau dyfodol hirdymor a chynaliadwy ar gyfer y diwydiant dur yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys y gwaith dur ym Mhort Talbot a Chaerdydd, a'r holl felinau dur a'r gweithfeydd prosesu ledled Cymru.

14. Wrth fynd ati i gefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru, rydym yn canolbwyntio ar roi'r amodau priodol yn eu lle i sicrhau hyfywedd hirdymor y diwydiant dur ac, yn fwy penodol, ar sicrhau bod gweithfeydd yng Nghymru yn fwy cystadleuol, cydnerth a chynaliadwy yn y dyfodol.

15. Rydym wedi bod yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod y misoedd diwethaf o ran helpu'r diwydiant o fewn y pwerau sydd ar gael inni. Ochr yn ochr â hynny, mae angen i Lywodraeth y DU gymryd camau mwy pendant a gwneud cynnydd mwy pendant o ran y ffactorau pwysig hynny sydd wedi creu amodau mor anodd i'r sector yng Nghymru a thu hwnt, megis capasiti byd-eang a mewnforion sy'n cael eu masnachu'n annheg.

## Effaith bosibl canlyniad y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd

16. Mae canlyniadau'r refferendwm ar yr UE wedi achosi ansicrwydd i'r sector dur. Mae cynhyrchwyr dur y DU yn masnachu'n helaeth â'r UE. Ar ôl y DU ac Iwerddon, yr UE yw'r farchnad fwyaf ar gyfer dur sy'n cael ei wneud yn y DU. Yn 2015, aeth 71% o'r cynhyrchion dur fflat a 65% o'r cynhyrchion dur hir a allforiwyd gan y DU i wledydd yn yr UE. Yn chwarter cyntaf 2016, allforiwyd 685,000 o dunelli o ddur i'r UE.

17. Mae'r DU hefyd yn mewnforio mwy o ddur gorffenedig o'r UE nag y mae'n ei allforio. Yn chwarter cyntaf 2016, mewnforiodd y DU dros 100,000 o dunelli'r un o'r Almaen, Sbaen, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a Ffrainc. Mae ansicrwydd am y berthynas fasnachu â'r UE yn destun cryn bryder, yn benodol felly o ran

pa fath o fynediad a allai fod gan gynhyrchwyr y DU yn y dyfodol i'r Farchnad Sengl.

18. Mae llawer o gynhyrchwyr dur y DU yn eiddo i gwmnïau rhyngwladol. Heb fynediad llawn a dilyffethair i'r farchnad sengl, gallai gweithfeydd dur y DU fod yn llai deniadol i berchenogion rhyngwladol wrth iddynt wneud penderfyniadau buddsoddi. Mae canlyniad y refferendwm ar yr UE wedi creu rhagor o ansicrwydd am sefyllfa Tata Steel o ran ei strategaeth ar gyfer ei fusnes yn Ewrop.

19. Ar hyn o bryd, mae'r ffaith bod y bunt yn wannach yn gyfle i allforio mwy, a bydd yn costio mwy i fewnforio cynhyrchion dur o wledydd sy'n cystadlu â'r DU. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion crai a ddefnyddir i wneud haearn a dur yn cael eu mewnforio, a byddant yn ddrutach.

20. Mae offerynnau amddiffyn masnach yn hanfodol er mwyn amddiffyn ein diwydiannau strategol cynhenid rhag arferion rhyngwladol annheg sy'n ystumio cystadleuaeth. Gwelwyd achosion amddiffyn masnach yn yr UE yn ddiweddar a oedd yn ymwneud â chynhyrchion dur, gan gynnwys bariau atgyfnerthu, dur graen cyfeiriedig, dur wedi'i rolio'n boeth a dur wedi'i rolio'n oer. Mae’r rhain i gyd yn cael eu gweithgynhyrchu yng Nghymru ac mae hynny'n pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod y dulliau a ddefnyddir i amddiffyn masnach yn rhai cadarn.

21. Ar ôl gadael yr UE, bydd yn bwysig i'r DU fedru datblygu offerynnau priodol i amddiffyn masnach er mwyn sicrhau ein bod yn gallu mynd i'r afael ag achosion o fasnachu annheg a diogelu'n diwydiannau cynhenid strategol yn ddigonol. Un o'r pwyntiau allweddol yw bod yn rhai sicrhau nad yw busnesau yng Nghymru o dan unrhyw anfantais oherwydd rhwystrau masnachu diangen, a dyna pam yr ydym yn glir am yr angen am fynediad llawn a dilyffethair i Farchnad Sengl yr UE.

22. Mae'r Cabinet wedi sefydlu Is-bwyllgor ar Drefniadau Pontio Ewropeaidd i arwain y gwaith sy'n gysylltiedig â gadael yr UE ac rydym yn sefydlu Grŵp Cynghori ar Ewrop sy'n cynnwys pobl fusnes, gwleidyddion ac eraill sydd ag arbenigedd am Ewrop, gan gynnwys cynrychiolwyr lefel uchel ar ran yr undebau llafur.

23. Hyd nes y trafodir ac y cytunir yn llawn ar y trefniadau ar gyfer gadael yr UE, mae’n ofynnol o hyd i Weinidogion Cymru gydymffurfio'n llawn â rheolau'r UE ar Gymorth Gwladwriaethol, a rhaid i unrhyw gymorth a roddir i'r sector dur gael ei roi yn unol â'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol.